



Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Dynodi Awdurdod trwyddedu o dan
Ran 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a
bwriad y rheoliadau hyfforddi a fydd
yn rheoli gofynion hyfforddi landlordiaid
ac asiantau

Dyddiad cyhoeddi: **19 December 2014**

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **6 February 2015**

Trosolwg

Diben yr ymgynghoriad hwn yw casglu safbwyntiau ar ddynodi un awdurdod trwyddedu i Gymru gyfan i reoli'r gwaith o gofrestru eiddo yn y sector rhentu preifat a thrwyddedu landlordiaid ac asiantau sy'n gosod ac yn rheoli eiddo o dan Ran 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Mae hefyd yn ceisio barn ar y gofyniad i'r awdurdod trwyddedu dynodedig nodi'r gofynion hyfforddi sydd angen eu bodloni i gael trwydded i landlordiaid ac asiantau o dan y Ddeddf ac iddo gael y pŵer i gymeradwyo hyfforddwyr a chysiau hyfforddi.

Sut i ymateb

Ymatebwch drwy gwblhau'r holiadur yng nghefn y ddogfen hon a'i anfon i Privatesectorhousingmailbox@wales.gsi.gov.uk

Neu

Tîm Tai'r Sector Preifat
Polisi Tai
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y Ddeddf ar wefan Llywodraeth Cymru:

www.wales.gov.uk/legislation/programme/assemblybills/housing/?lang=cy

www.wales.gov.uk/legislation/programme/assemblybills/housing/?lang=en

Hefyd, ceir gwybodaeth ychwanegol am y Ddeddf, gan gynnwys diwygiadau a gyflwynwyd gan y Llywodraeth ac aelodau eraill o'r Cynulliad yn ystod y broses graffu, ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:

www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?Ild=8220

Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Tîm Tai'r Sector Preifat
Polisi Tai
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful CF48 1UZ

Ebost: Privatesectorhousingmailbox@wales.gsi.gov.uk

Diogelu data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch i ni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyfrif cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Diogelu data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch i ni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â hwy. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, nodwch hynny wrth i chi ddychwelyd eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion. Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd ofyn am gael gweld gwybodaeth amgylcheddol a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd yn rhaid i ni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn i ni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, gallai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

CYNNWYS

Crynodeb

Tudalen 5

Cyflwyniad

Tudalen 6

Cefndir Deddfwriaethol

Tudalen 7

Y Camau Nesaf

Tudalen 9

Ffurflen Ymateb

Tudalen 10

Crynodeb

Pasiwyd Deddf Tai (Cymru) 2014 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Gorffennaf 2014 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 17 Medi 2014. Mae Rhan 1 o'r Ddeddf yn cyflwyno cynllun cofrestru gorfodol i landlordiaid preifat a gofyniad i drwyddedu landlordiaid preifat ac asiantau gosod os ydynt yn gosod neu'n rheoli eiddo. Mae Rhan 1 yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy is-ddeddfwriaeth, wneud y canlynol:

- Dynodi awdurdod neu awdurdodau trwyddedu.
- Awdurdodi'r awdurdod/awdurdodau trwyddedu dynodedig i nodi gofynion o ran hyfforddi landlordiaid ac asiantau trwyddedig.
- Awdurdodi'r awdurdod/awdurdodau trwyddedu dynodedig i awdurdodi unigolion i gynnal yr hyfforddiant gofynnol.

Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn ar y bwriad i benodi un awdurdod trwyddedu i Gymru a dynodi Cyngor Caerdydd i weithredu fel yr awdurdod hwnnw. Mae hefyd yn ceisio barn ar y cynnig y dylai'r awdurdod trwyddedu nodi'r maes llafur craidd ar gyfer cyrsiau i landlordiaid ac asiantau ac y dylai'r awdurdod trwyddedu awdurdodi darparwyr i ddarparu cyrsiau hyfforddi o'r fath.

Ymatebion i'r ymgynghoriad

Croesewir eich barn a darperir ffurflen ymateb yng nghefn y ddogfen hon. Mae'r cwestiynau yn gofyn am eich barn ar y bwriad i greu Rheoliadau a fydd yn dynodi un awdurdod trwyddedu ac yn rhoi'r pŵer i'r awdurdod hwnnw awdurdodi darparwyr hyfforddiant a chynnwys cyrsiau ar gyfer hyfforddiant landlordiaid ac asiantau.

Cyflwyniad

Deddf Tai (Cymru) 2014

Pasiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ym mis Gorffennaf 2014 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Medi 2014. Mae Rhan 1 o'r Ddeddf yn ymwneud â rheoleiddio tai rhent preifat. Bwriad y ddeddfwriaeth yw gwella safonau gosod a rheoli yn y sector rhentu preifat a chodi ymwybyddiaeth o briod hawliau a chyfrifoldebau landlordiaid, asiantau a thenantiaid.

Nodir isod brif nodweddion Rhan 1 o'r Ddeddf.

- Mae'n rhaid i bob landlord preifat gofrestru ei hun a chyfeiriadau ei eiddo rhent yng Nghymru gydag awdurdod trwyddedu dynodedig.
- Mae'n rhaid i landlordiaid sy'n cyflawni gweithgareddau gosod neu reoli eiddo diffiniedig mewn eiddo rhent yng Nghymru gael eu trwyddedu. Os bydd landlord yn cyfarwyddo asiant i wneud gwaith o'r fath ar ei ran, yr asiant hwnnw sy'n gorfod cael ei drwyddedu.
- Er mwyn cael trwydded mae'n rhaid i unigolyn naill ai fod wedi'i hyfforddi'n ddigonol neu gael ei hyfforddi'n ddigonol a chael ei ystyried yn unigolyn 'addas a phriodol' gan yr awdurdod trwyddedu.
- Yr awdurdod/awdurdodau trwyddedu ac awdurdodau lleol unigol lle mae eiddo rhent wedi'i leoli fydd yn gyfrifol am unrhyw gamau gorfodi y mae angen eu cymryd lle y ceir achosion o ddiffyg cydymffurfio.
- Bydd y cynllun trwyddedu yn disodli cynllun gwirfoddol presennol 'Achredu Landlordiaid Cymru' a weinyddir ar hyn o bryd gan Gyngor Caerdydd.
- Bydd yr awdurdod/awdurdodau trwyddedu yn sefydlu cronfa ddata gynhwysfawr o'r holl landlordiaid preifat ac asiantau sy'n gweithredu yn y sector.

Cefndir Deddfwriaethol

Dynodi Awdurdod Trwyddedu

O dan Adran 3, Rhan 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 mae'n rhaid i Weinidogion Cymru wneud y canlynol:

- dynodi un unigolyn fel yr awdurdod trwyddedu i Gymru gyfan;
- neu ddynodi unigolion gwahanol fel awdurdodau trwyddedu ar gyfer rhannau gwahanol o Gymru.

Bydd yr awdurdod/awdurdodau trwyddedu dynodedig yn rheoli'r cynllun cofrestru ar gyfer landlordiaid a'r cynllun trwyddedu ar gyfer landlordiaid ac asiantau gosod a rheoli sy'n gweithredu yn y sector rhentu preifat yng Nghymru.

Mae'n rhaid i'r awdurdod/awdurdodau trwyddedu sefydlu a chynnal cofrestr o landlordiaid ac eiddo a chofrestr o landlordiaid ac asiantau trwyddedig.

Gofynion Hyfforddi Awdurdodau Trwyddedu

O dan Adran 19, Rhan 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, cyn i awdurdod trwyddedu roi trwydded, mae'n rhaid i'r gofynion o ran hyfforddiant a nodir mewn neu o dan reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru fod wedi'u bodloni neu cânt eu bodloni.

Gall Gweinidogion Cymru, ymhlith pethau eraill, awdurdodi awdurdod/awdurdodau trwyddedu i nodi gofynion o ran hyfforddiant mewn perthynas â'r canlynol:

- Rhwymedigaethau statudol landlord a thenant
- Y gydberthynas gytundebol rhwng landlord a thenant
- Rôl asiant sy'n gwneud gwaith gosod neu waith reoli eiddo
- Arfer gorau o ran gosod a rheoli anheddau sy'n ddarostyngedig i denantiaeth ddomestig neu sy'n cael eu marchnata neu eu cynnig ar gyfer eu gosod o dan denantiaeth ddomestig

Gall Gweinidogion Cymru hefyd wneud darpariaeth i'r awdurdod trwyddedu wneud y canlynol:

- Awdurdodi unigolion i gynnal cyrsiau hyfforddi
- Cymeradwyo cyrsiau hyfforddi

Gall Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth i'r awdurdod/awdurdodau trwyddedu godi ffi am awdurdodi neu gymeradwyo cais ar gyfer cymeradwyo cyrsiau hyfforddi a darparwyr hyfforddiant.

Gofyniad i landlord fod yn gofrestredig

Mae'n rhaid i landlord eiddo a gynigir ar gyfer ei osod o dan denantiaeth ddomestig (fel y'i diffinnir o dan Adran 2, Rhan 1 o'r Ddeddf) fod yn gofrestredig o ran yr eiddo hwnnw, yn ddarostyngedig i'r eithriadau yn adran 5 o'r Ddeddf.

Y gofyniad i landlordiaid fod yn drwyddedig i gyflawni gweithgareddau gosod a rheoli

Ar ôl iddo gael ei gofrestru, os bydd landlord eiddo, sydd wedi'i osod o dan denantiaeth ddomestig, yn cyflawni swyddogaethau gosod neu reoli penodol mae'n rhaid iddo fod yn drwyddedig i wneud hynny, yn ddarostyngedig i'r eithriadau yn adran 8 o'r Ddeddf. Y cyfryw swyddogaethau yw:

- Trefnu neu gynnal ymweliadau gyda darpar denantiaid
- Casglu tystiolaeth er mwyn sicrhau bod darpar denantiaid yn addas e.e. cadarnhau tystlythyrau. Cynnal gwiriadau credyd, cyfweld darpar denantiaid
- Llunio cytundeb tenantiaeth neu drefnu bod un yn cael ei lunio
- Llunio stocrestr ar gyfer yr eiddo neu drefnu bod un yn cael ei llunio
- Casglu rhent
- Bod yn brif bwynt cyswllt i'r tenant mewn perthynas â materion sy'n codi o dan y denantiaeth
- Gwneud trefniadau gydag unigolyn i wneud gwaith atgyweirio neu gynnal a chadw
- Gwneud trefniadau gyda thenant neu feddiannydd yr eiddo i sicrhau mynediad i'r eiddo at unrhyw ddiben
- Cadarnhau cynnwys neu gyflwr yr eiddo, neu drefnu eu bod yn cael eu cadarnhau;
- Cyflwyno hysbysiad terfynu tenantiaeth.

Gofynion i asiantau fod yn drwyddedig i wneud gwaith gosod a rheoli

Mae'n rhaid i unigolyn sy'n gweithredu ar ran landlord eiddo, sydd wedi'i osod o dan denantiaeth ddomestig, fod yn drwyddedig i wneud gwaith gosod a rheoli, yn ddarostyngedig i'r rheolau yn adrannau 10 ac 11 o'r Ddeddf. Y cyfryw weithgareddau gwaith yw:

- Canfod tenant
- Rhoi cytundeb tenantiaeth
- Casglu rhent
- Bod yn brif bwynt cyswllt i'r tenant mewn perthynas â materion sy'n codi o dan y denantiaeth
- Gwneud trefniadau gydag unigolyn i wneud gwaith atgyweirio neu gynnal a chadw
- Gwneud trefniadau gyda thenant neu feddiannydd yr eiddo i sicrhau mynediad i'r eiddo at unrhyw ddiben
- Cadarnhau cynnwys neu gyflwr yr eiddo, neu drefnu eu bod yn cael eu cadarnhau;
- Cyflwyno hysbysiad terfynu tenantiaeth.

Ceisiadau am Drwyddedau

Gellir rhoi trwydded yn ddarostyngedig i amodau a osodir gan yr awdurdod/awdurdodau trwyddedu. Cyn rhoi trwydded mae'n rhaid i'r awdurdod/awdurdodau trwyddedu fod yn fodlon bod yr ymgeisydd yn unigolyn 'addas a phriodol' a'i fod wedi bodloni'r gofynion hyfforddi angenrheidiol neu y bydd yn eu bodloni.

Bydd trwyddedau yn para am bum mlynedd ac wedyn mae'n rhaid eu hadnewyddu os bydd y trwyddedai am barhau i fod yn drwyddedig. Gall yr awdurdod trwyddedu godi ffi am y drwydded ac am ei hadnewyddu.

Y Camau Nesaf

Er mwyn ei gwneud yn bosibl i Ran 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ddod i rym mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddynodi awdurdod/awdurdodau trwyddedu. At hynny, mae'n rhaid iddi wneud rheoliadau mewn perthynas â phŵer yr awdurdod/awdurdodau trwyddedu i ragnodi'r gofynion hyfforddi sydd angen eu bodloni er mwyn cael trwydded.

Mae'r papur ymgynghori hwn yn ceisio barn ar fwriad polisi'r gorchymyn dynodi a'r rheoliadau hyfforddi.

Dynodi Awdurdod trwyddedu

Y bwriad yw y bydd Gorchymyn Dynodi yn nodi y bydd un awdurdod trwyddedu i Gymru gyfan ac mai Cyngor Dinas Caerdydd fydd yr awdurdod hwnnw.

Gofynion Hyfforddi Awdurdodau Trwyddedu

Bwriad Rheoliadau Tai Rhent Preifat (Gofynion Hyfforddi Awdurdodau Trwyddedu) (Cymru) 2015 yw ei gwneud yn ofynnol i gyrsiau gwahanol gael eu darparu i landlordiaid ac asiantau er mwyn adlewyrchu gofynion gwahanol eu rolau. Bwriedir rhagnodi meysydd hyfforddiant cyffredinol mewn rheoliadau ond mater i'r awdurdod trwyddedu fydd penderfynu ar gynnwys penodol cyrsiau o fewn y meysydd hyn a'i gyhoeddi. At hynny, bwriedir rhoi'r pŵer i'r awdurdod trwyddedu gymeradwyo cyrsiau hyfforddi a darparwyr cyrsiau a chodi ffi am y gymeradwyaeth hon.

Ffurflen Ymateb

Enw:

E-bost:

Ffôn:

Cyfeiriad:

Cod post:

Sefydliad
(os yw'n
berthnasol)

Dychwelyd y ffurflen hon

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw **6 Chwefror 2015**

Anfonwch y ffurflen hon wedi'i chwblhau atom drwy neges e-bost i:

Privatesectorhousingmailbox@wales.gsi.gov.uk

Neu drwy'r post i:

Y Sector Rhentu Preifat
Polisi Tai
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Os ydych yn anfon eich ymateb drwy neges e-bost, nodwch y canlynol fel testun eich neges e-bost **Ymgynghoriad ar y Gorchymyn Dynodi a'r Rheoliadau Hyfforddi**

Cyhoeddi ymatebion

Mae'n bosibl y caiff ymatebion i ymgynghoriadau eu cyhoeddi - ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Fel arfer, cyhoeddir enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr awdur gyda'r ymateb, gan fod hyn yn helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol.

Os byddai'n well gennych i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cadw'n gyfrinachol, ticiwch yma:		
---	--	--

Dynodi Awdurdod Trwyddedu

Bwriad y Gorchymyn Dynodi yw penodi un awdurdod trwyddedu i Gymru gyfan i reoli'r cynllun cofrestru a thrwyddedu i landlordiaid ac asiantau gosod. Ystyrir y bydd penodi un awdurdod trwyddedu yn fuddiol am y rhesymau canlynol:

- Costeffeithiolrwydd gweithredu un gronfa ddata a gwefan (yn hytrach na gweithredu un ym mhob ardal awdurdod lleol)
- Dim ond unwaith y bydd yn ofynnol i landlordiaid ac asiantau gofrestru a dim ond un ffi y byddant yn ei thalu (yn hytrach na sawl gwaith os bydd ganddynt eiddo mewn mwy nag un ardal awdurdod)
- Cysondeb o ran y gwasanaeth a ddarperir a'r modd y mae'r ddeddfwriaeth a nodir yn y Ddeddf yn cael ei dehongli a'i rhoi ar waith
- Un gronfa ddata ganolog ar gyfer casglu data (yn hytrach na bod landlord yn gorfod cael nifer o gofrestrïadau er mwyn adlewyrchu eiddo mewn ardaloedd gwahanol.)
- Manteision hyrwyddo un cynllun cofrestru a thrwyddedu "cenedlaethol" o ran costau a marchnata

1. A ydych yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru benodi un awdurdod trwyddedu i Gymru gyfan?

Ydw	<input type="checkbox"/>	
Nac ydw	<input type="checkbox"/>	
Os nad ydych, pam?		

Y bwriad yw mai Cyngor Caerdydd fydd yr awdurdod trwyddedu sengl. Wrth ddatblygu'r Bil Tai (Cymru), cadarnhaodd Cyngor Caerdydd ei gynnig i reoli'r cynllun cofrestru a thrwyddedu i landlordiaid ac asiantau gosod. Gan fod gan Gyngor Caerdydd brofiad o weinyddu'r Cynllun Achredu Landlordiaid gwirfoddol presennol ar ran y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru ystyrir bod ganddo'r wybodaeth a'r profiad sydd eu hangen i roi'r gyfundrefn gyfreithiol newydd ar waith.

2. A ydych yn cytuno y dylid penodi Cyngor Caerdydd i weithredu fel yr awdurdod trwyddedu sengl?

Ydw	<input type="checkbox"/>	
Nac ydw	<input type="checkbox"/>	
Os nad ydych, pam?		

Gofynion Hyfforddi

Cyn rhoi trwydded mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu fod yn fodlon bod y gofynion hyfforddi perthnasol wedi'u bodloni neu y cânt eu bodloni. Y bwriad yw y bydd yr Awdurdod Trwyddedu dynodedig yn penderfynu ar y meysydd llafur craidd penodol ar gyfer cyrsiau hyfforddi ac yn eu cyhoeddi fel y gellir diweddarau cynnwys cyrsiau yn ôl yr angen er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth ac arfer gorau.

Er hynny, bydd rheoliadau hyfforddi yn nodi bod yn rhaid i gynnwys meysydd llafur y cyrsiau penodol ymwneud ag un o'r canlynol:

1. Rhwymedigaethau statudol landlord a thenant
2. Y gydberthynas gytundebol rhwng landlord a thenant
3. Rôl asiant sy'n gwneud gwaith gosod neu waith rheoli eiddo.
4. Arfer gorau o ran gosod a rheoli anheddau sy'n ddarostyngedig i denantiaeth ddomestig neu sy'n cael eu marchnata neu eu cynnig ar gyfer eu gosod o dan denantiaeth ddomestig
5. Rolau a chyfrifoldebau o ran gwaith gosod neu waith rheoli eiddo.

3. A ydych yn cytuno y dylai pob un o'r pum maes pwnc cyffredinol a nodwyd uchod gael ei nodi yn y rheoliadau hyfforddi?

Ydw	<input type="checkbox"/>	
Nac ydw	<input type="checkbox"/>	
Os nad ydych, pa rai o'r pump na ddylid eu cynnwys yn yr hyfforddiant a pham?		

4. A oes unrhyw feysydd pwnc cyffredinol eraill y dylid eu cynnwys yn y rheoliadau hyfforddi fel gofynion statudol mewn cwrs hyfforddi, yn eich barn chi?

Oes	<input type="checkbox"/>	
Nac oes	<input type="checkbox"/>	
Os nac oes, beth arall sydd angen ei gynnwys a pham?		

--

Bydd cyrsiau hyfforddi cymeradwy yn ymdrin yn bennaf â rolau a chyfrifoldebau landlord neu asiant mewn perthynas â'r tenant a'u rhwymedigaethau cyfreithiol. Y bwriad polisi yw y bydd y rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrsiau gwahanol gael eu darparu ar gyfer pobl wahanol er mwyn adlewyrchu gofynion gwahanol eu rolau. Y bwriad yw mai mater i'r Awdurdod Trwyddedu dynodedig fydd penderfynu ar y meysydd llafur craidd gofynnol ar gyfer pob un o'r cyrsiau gofynnol a'u cyhoeddi a nodi'n glir i bwy y mae'r cwrs yn addas. Gan fod y meysydd llafur hyn yn wahanol ar gyfer landlordiaid ac asiantau y bwriad yw y bydd y rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod trwyddedu ddatblygu gofynion craidd gwahanol ar gyfer y cyrsiau er mwyn adlewyrchu gofynion gwahanol rôl landlord ac asiant.

5. A ydych yn cytuno y dylai'r awdurdod trwyddedu nodi y dylai'r hyfforddiant craidd a gynhwysir mewn cyrsiau i landlordiaid ac asiantau fod yn wahanol?

Ydw	<input type="checkbox"/>	
Nac ydw	<input type="checkbox"/>	
Os nad ydych, pam?		

--

At hynny, y bwriad yw, er mwyn iddynt gael eu cymeradwyo neu eu hawdurdodi, y bydd yn rhaid i ddarparwyr hyfforddiant gyflwyno manylion gofynnol eu cyrsiau hyfforddi i'r awdurdod trwyddedu i'w cymeradwyo. Mae'n rhaid i gais i'r awdurdod trwyddedu am awdurdod i ddarparu cyrsiau hyfforddi gael ei wneud yn unol â chanllawiau'r awdurdod trwyddedu.

Er enghraifft, mae darparwr hyfforddiant yn llunio cwrs undydd i landlordiaid a chwrs undydd i asiantau. Er mwyn cael ei gymeradwyo i ddarparu'r cwrs i landlordiaid byddai'n cysylltu â'r Awdurdod Trwyddedu ac yn cyflwyno cais am gymeradwyaeth (a thalu un ffi). Er mwyn cael ei gymeradwyo i ddarparu'r cwrs i asiantau byddai'n ofynnol iddo gyflwyno cais ar wahân am gymeradwyaeth (a ffi). Ni fyddai'n briodol cymeradwyo cwrs hyfforddi yn unig

neu unigolyn i redeg cwrs yn unig ar wahân i'w gilydd; bydd angen ystyried a chymeradwyo'r ddau ohonynt gyda'i gilydd.

Bydd y gofyniad ffurfiol hwn i gael cymeradwyaeth yn sicrhau y gall landlordiaid ac asiantau sydd am gael eu trwyddedu nodi'n hawdd gyrsiau hyfforddi addas a gydnabyddir gan yr Awdurdod Trwyddedu fel rhai sy'n cyrraedd y safon ofynnol.

6. A ydych yn cytuno y dylai'r awdurdod trwyddedu gymeradwyo/awdurdodi cyrsiau hyfforddi a darparwyr hyfforddiant i ddarparu hyfforddiant?

Ydw	<input type="checkbox"/>	
Nac ydw	<input type="checkbox"/>	
Os nad ydych, pam?		

Gellir gwrthod awdurdodi cais os na fydd yr ymgeisydd yn bodloni'r gofynion a bennwyd gan yr awdurdod lleol, neu os na chyflwynir y cais ar y ffurf briodol. Pan fydd awdurdod trwyddedu yn penderfynu gwrthod cais dylai'r penderfyniad gael ei gyhoeddi'n ysgrifenedig a bydd gan yr ymgeisydd yr hawl i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r Awdurdod Trwyddedu os bydd yn dymuno gwneud hynny.

7. A ydych yn cytuno y dylai'r Awdurdod Trwyddedu roi rhesymau dros ei benderfyniad ac y dylai fod gan ymgeiswyr yr hawl i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig os byddant yn dymuno gwneud hynny?

Ydw	<input type="checkbox"/>	
Nac ydw	<input type="checkbox"/>	
Os nad ydych, pam?		

Y bwriad yw y bydd gan yr awdurdod trwyddedu y pŵer i dynnu awdurdod darparwr hyfforddiant yn ôl am y rhesymau canlynol:

- Os na fydd y darparwr wedi bodloni amod a osodwyd ar ei awdurdod gan yr awdurdod trwyddedu
- Os nad yw'n ddarparwr priodol mwyach

Bydd yn rhaid i'r awdurdod trwyddedu ddarparu, yn ysgrifenedig, y rhesymau dros dynnu'r awdurdod yn ôl a bydd gan y darparwr hyfforddiant yr hawl i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r Awdurdod Trwyddedu yn erbyn penderfyniad o'r fath.

8. A ydych yn cytuno y dylai fod gan yr awdurdod trwyddedu y pŵer i dynnu awdurdod darparwr i ddarparu cwrs hyfforddi yn ôl o dan yr amgylchiadau hyn?

Ydw	<input type="checkbox"/>	
Nac ydw	<input type="checkbox"/>	
Os nad ydych, pam?		

9. A ydych yn cytuno y dylai'r Awdurdod Trwyddedu roi rhesymau dros benderfyniad o'r fath ac y dylai'r darparwr hyfforddiant allu cyflwyno sylwadau ysgrifenedig yn erbyn penderfyniad o'r fath?

Ydw	<input type="checkbox"/>	
Nac ydw	<input type="checkbox"/>	
Os nad ydych, pam?		

Ffioedd

Y bwriad yw y bydd yr awdurdod trwyddedu yn gallu pennu polisi ffioedd ar gyfer cymeradwyo cyrsiau hyfforddi a darparwyr hyfforddiant. Y bwriad yw, cyn codi unrhyw ffi, y bydd yn rhaid i'r awdurdod trwyddedu lunio a chyhoeddi polisi ffioedd ac mai dim ond yn unol â'i bolisi ffioedd y bydd yn gallu codi ffioedd o'r fath. Gall yr awdurdod trwyddedu bennu ffioedd gwahanol am achosion gwahanol neu ddisgrifiadau o achosion ond mae'n rhaid dangos y rhain yn glir yn ei bolisi.

10. A ddylai fod yn ofynnol i'r awdurdod trwyddedu lunio a chyhoeddi polisi ffioedd cyn y gall godi ffi am gymeradwyo cwrs hyfforddi a darparwr hyfforddiant?

Dylai		
Na ddylai		
Os na ddylai, pam?		